

MANYLEB ASESU LEFEL 6

Enw'r myfyriwr:	Alexander Sion Hall	Rhif Adnabod y myfyriwr:	1601032
Rhaglen:	BA Addysg Gynradd SAC		
Modwl:	Egwyddorion Arfer a Chynnydd		
Cod y modwl:	ECAD6001C	Cyfraniad at Asesiad Cyffredinol y Modwl (%):	50%
Darlithydd:	C W Jennings	Gwiriwr Mewnol:	
Teitl yr Aseiniad:	Cyflwyniad fideo unigol a ffeil gefnogi	Nifer o eiriau (neu'r cyfwerth):	Cyfatebol â 3,000
Dyddiad cyflwyno:	13eg o Dachwedd 2018	Dyddiad dychwelyd marciau dros dro ac adborth ysgrifenedig:	11fed o Ragfyr 2018
Dull cyflwyno:	Lle bo'n ymarferol ac yn bosibl, rhaid cyflwyno pob asesiad ysgrifenedig drwy Turnitin, oni nodir yn wahanol gan y Darlithydd. (PEIDIWCH â rhoi'r fanyleb asesu hon i mewn i Turnitin neu bydd yn cyfateb i lawer o bethau tebyg yng nghyflwyniadau myfyrwyr eraill.) Dull cyflwyno arall (os ydy'n berthnasol): Cofbin / Ffeil / Turnitin Bydd cyflwyno'r asesiad yn hwyr yn arwain at ddyfarnu marc cosb. Cosbau am gyflwyno'n hwyr: Hyd at wythnos yn hwyr, uchafswm marc o 40%. Dros wythnos yn hwyr, 0%. Y Panel Amgylchiadau Esgusodol yn unig all gymeradwyo newid dyddiadau cyflwyno.		
Gonestrwydd academiaidd / cyfeirnod:	Mae gonestrwydd academiaidd yn ofynnol. Ym mhrif ran eich cyflwyniad rhaid i chi gydnabod awduron y mae'ch gwaith wedi'i seilio ar eu hymchwil a'u syniadau. Dylech atodi rhestr gyfeiriadau i'ch cyflwyniad sy'n nodi'r llyfrau, erthyglau ac ati rydych wedi'u defnyddio, wedi cyfeirio atynt neu wedi'u dyfynnu er mwyn cwblhau'r asesiad hwn.		

FFURFLEN ADBORTH MYFYRWYR

Noda'r adran hon y *graddau* y mae'r meini prawf asesu yn cael eu harddangos gennych chi, sydd yn ei dro'n pennu'ch marc. Dangosir y marciau sydd ar gael ar gyfer pob categori sgiliau. Bydd darlithwyr yn defnyddio'r lle a ddarperir i roi sylwadau ar gyflawniad y dasg/tasgau, gan gynnwys y meysydd hynny rydych wedi gwneud yn dda ynddynt a'r meysydd a fyddai'n elwa o gael eu datblygu/gwella.

Meini Prawf Asesu Generig	Marciau sydd ar gael	Marciau a ddyfarn
1. Sgiliau Ymgysylltu â Llenyddiaeth	20	
2. Sgiliau Gwybodaeth a Dealltwriaeth	20	
3. Sgiliau Gwybyddol a Deallusol	20	
4. Sgiliau Cymhwyso Ymarferol	20	
5. Sgiliau Trosglwyddadwy ar gyfer Bywyd ac Arfer Proffesiynol	20	

Marc Asesiad (Mae marciau asesiadau'n amodol ar gadarnhad y Bwrdd Arholi. Diben y sylwadau a'r marciau hyn yw rhoi adborth ar waith modwl a rhoi arweiniad yn unig, nes y cânt eu cadarnhau.)	Cosbau Cyflwyno'n Hwyr (ticiwch os yw'n berthnasol)		%
	Hyd at wythnos yn hwyr (uchafswm o 40%)		
	Dros wythnos yn hwyr (0%)		

ECAD6001CSgript

Bore da i chi gyd a chroeso i'r rhieni, llywodraethwyr ar uwch dim rheoli. Fel therapydd iaith o fewn eich sir penderfynwyd ar gyfer y cyfarfod yma canolbwyntio'n seiliedig ar ymyrraeth ar gyfer wella safon iaith a chyfathrebu o fewn eich ysgol. Edrychwn yn ystod y cyfarfod ar anawsterau iaith lafar, datblygiad o fewn iaith lafar plentyn a pha fath o rôl mae technoleg yn chwarae o fewn datblygu iaith lafar plentyn. Yn ychwanegol, o fewn ein sir yn benodol mae yna 66 o ddisgyblion â datganiad o anawsterau iaith, llafar a chyfathrebu yn addysg ysgol gynradd, a 60 o fewn addysg ysgol uwchradd. Yn ogystal, mae yna 298 o ddisgyblion o fewn addysg ysgol gynradd heb ddatganiad, ond gydag anawsterau iaith. Felly'r gobaith wrth gyflwyno'r ymyrraeth i chi heddiw fel ysgol, yw bod yna chmau clir o fewn eich ysgol o sut medrant ddatblygu plentyn ag anhawster iaith a chyfathrebu. Nodwyd hefyd ar ôl y cyfarfod yma, fe fydd modd i chi gyd edrych ar y cynllun datblygu ysgol sydd yn nodi sut y bydd yr ymyrraeth yma'n cael ei weithredu.

Datganwyd Estyn o fewn adroddiad thematig bod yna 8.9% o blant Cymru yn dioddef o anawsterau siarad, iaith a chyfathrebu. Yn ogystal â hyn hefyd yn yr adroddiad thematig datganwyd bod anawsterau siarad, iaith a chyfathrebu'n cael ei galw'n 'angen mynych', felly'n amlwg yn ddigwyddiad aml o fewn ein system addysg. Felly, o'r dystiolaeth yma daw'r syniad am ymyrraeth a fydd yn gyfatebol i'r adroddiad thematig Estyn, mae'r achosion o anawsterau iaith a chyfathrebu o fewn eich ysgol angen ymyrraeth glir a chadarn er mwyn ei wella. Nodwyd hefyd gan Donaldson o fewn y ddogfen Ddyfodol Lwyddiannus bod gofynion y cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru yn gynnwys wella sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu o fewn y cyfnod sylfaen.

Mae anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu yn medru cael effaith uniongyrchol ar ganlyniadau datblygiadol ac addysgol plant a hefyd ei iechyd a lles. Dyma rhai enghreifftiau o ba fath o effaith mae anawsterau iaith a llafar yn medru cael ar blentyn:

Dywed y Coleg Brenhinol o therapyddion iaith a llafar bod sgiliau iaith lafar yn ganolog i allu'r plentyn i gael mynediad i'r cwricwlwm yng Nghymru a datblygu ei sgiliau

llythrennedd. Datganwyd hefyd bod anawsterau iaith lafar yn bump oed yn gysylltiedig â safonau isel o safonau erbyn ei bod yn oedolyn. Yn symud ymlaen, mae anawsterau iaith yn medru effeithio ar les ac ymddygiad plant. Dywed Bryan o fewn dogfen a gyhoeddwyd gan Y Coleg Brenhinol o Therapyddion iaith a llafar bod plant gydag anawsterau iaith gynradd mewn perygl uwch o ddatblygu problemau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol, a all cynyddu'r risg o'u dynnu o'r ysgol neu mewn achosion eithafol, yn medru arwain at bobl ifanc yn troi'n troseddwyr ac yn cwmpo i mewn i'r system gyfiawnder.

Felly'n dilyn o hyn y thema ganolig heddiw yn amlwg bydd pa ymyrraeth bydd gorau er mwyn sicrhau datblygant clir o fewn eich ysgol o anawsterau iaith. O astudiaeth o ymarfer a lansiwyd gan lywodraeth Prydain yn 2010, datganwyd y Cynllun Iaith Derbyshire a Makaton oedd y rhai mwyaf cyffredin ar gyfer plant hyd at 7 oed. Felly, oherwydd mae anawsterau iaith a chyfathrebu yn dueddol o fod y mwyaf cyffredin o fewn eich cyfnod sylfaen, awgrymaf fod cynllun iaith Derbyshire bydd yr ymyrraeth gorau ar gyfer y datblygiad gorau posib. Er bod yna ymyrraeth o fewn Sir Gaerfyrddin o'r enw CHAT, awgrymaf y Cynllun Iaith Derbyshire bydd y gorau, oherwydd mae'r cynllun iaith derbyshire yn medru cael ei ddefnyddio gan wahanol athrawon o fewn yr ysgol, yn ogystal ar therapyddion iaith. Felly'n wneud yn fwy posib i blant ag anawsterau iaith a llafar cael mynediad i'r cwricwlwm, gan ei fod yn cael ei gefnogi gan aelod o'r staff o fewn yr ysgol, yn hytrach nag person proffesiynol o'r tu allan.

Mae'r Cynllun Iaith Derbyshire hir wedi cael ei sefydlu er mwyn helpu disgyblion ag anawsterau dysgu ac iaith ddifrifol. Mae'n cynnwys dau Lawlyfr Addysgu, casgliad o brofion iaith a ffurflenni i gofnodi cynnydd y plentyn. Mae hwn yn un o nifer o raglennu sydd yn cael ei defnyddio er mwyn datblygu defnydd a dealltwriaeth o iaith lafar o fewn plentyn. Defnyddwyr Cynllun Iaith Derbyshire sefyllfaoedd prawf penodol i bennu lefel iaith ddealltwriaeth a mynegiannol disgyblion.

Datganwyd Complexneeds.org bod y Cynllun Iaith Derbyshire wedi ei datblygu gan seicolegydd addysgol, athro a therapydd lleferydd ac iaith, yn benodol ar gyfer athrawon sydd gyda disgyblion ag anawsterau dysgu difrifol. Mae'r cynllun tua thri deg mlwydd oed ond yn dal i fod yn ddefnyddiol iawn gan ei fod yn cynnwys llawer o awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau addysgu. Cynlluniwyd y rhaglen yn wreiddiol ar gyfer plant ag anableddau dysgu difrifol; fodd bynnag gellir ei ddefnyddio gyda phob plentyn a pherson ifanc lle mae

adeiladu geirfa ac addysgu dealltwriaeth a defnydd o frawddegau syml a gramadeg sylfaenol yw'r nodau allweddol.

Mae therapyddion iaith a lleferydd fel fi fy hun o fewn eich sir yn defnyddio'r Cynllun Iaith Derbyshire er mwyn asesu lefel a gallu'r plentyn o ran iaith a chyfathrebu. Mae'r asesiad yma'n galluogi'r therapyddion cynnal gwahanol weithgareddau a bydd yn gwella sgiliau iaith a chyfathrebu'r plentyn unigol yn dibynnu ar ganlyniad yr asesiad. Bydd yr asesiad yn benodol yn edrych ar faint o eiriau mae'r plentyn unigol yn medru mynegi er mwyn trosglwyddo gwybodaeth a ddeall wybodaeth, a hefyd os mae'r nifer o eiriau yn gyfartal ar gyfer eu hoedran. Unwaith mae'r asesiad wedi ei chynnal bydd yna benderfyniad clir o a oes angen ymyrraeth i wella eu dealltwriaeth o iaith a'i defnydd o frawddegau. Mae'r cynllun iaith Derbyshire wedi ei rhannu mewn i dri cyfnod wahanol;

1. Cyfnod Geirfa gynnar yw'r cam cyntaf o'r cynllun, nod y cam yma yw ceisio dysgu'r disgyblion i ddeall a defnyddio nifer o eiriau ond nid brawddegau.
2. Yr ail gyfnod o'r cynllun yw'r cyfnod brawddegau syml. Nod y cyfnod yma yw dysgu'r disgyblion i ddeall a defnyddio ystod o frawddegau o gymhlethdod cynyddol.
3. Cyfnod Gramadeg a chamddefnyddio brawddegau cymhleth yw'r trydydd cyfnod.

Nod y cam yma yw addysgu disgyblion ffyrdd mwy aeddfed o fynegi eu hunain ac ystod o gysyniadau newydd. Mae mwy o bwyslais ar gynhyrchu brawddegau cywir gramadegol. Mae yna ystod o resymau pam a dylem ddefnyddio'r cynllun yma o fewn eich ysgol, gan gynnwys:

- Cryfhau dealltwriaeth a defnydd y plentyn o eirfa.
- Cryfhau dealltwriaeth a defnydd y plentyn o frawddegau.
- Wella'r defnydd y plentyn o ramadeg.
- Disgyblion yn dod yn fwy hyderus yn weithion annibynnol
- Safonau darllen yn gwella
- Safonau ysgrifennu'n gwella
- Canlyniadau'r profion cenedlaethol yr ysgol yn gwella
- Bydd y disgyblion yn medru dangos sgiliau cyfathrebu a chymdeithasol.

Gellir cyflwyno'r dull yn uniongyrchol gan Therapydd Lleferydd ac Iaith fel fy hunain. Neu gall hefyd cael ei ddarperir gan athrawon neu athro/athrawes cynorthwyo yn un wrth un neu sefyllfaoedd grwpiau bach. Mae rhoi'r cymhwyster i athrawon o fewn yr ysgol cynnig y Cynllun Iaith Derbyshire yn ddefnyddiol iawn, gan ei fod yn sicrhau bod plant yn cael mynediad cwricwlwm o fewn yr ysgol ac yn cael y gefnogaeth o fewn yr ysgol.

Argymhellwyd hefyd gan edrych ar ffigyrau'r sir bod yna 6,190 o blant yn derbyn prydau fwyd am ddim. Datganwyd y Telegraph ym 2016 bod plant tlotaf Lloegr yn perfformio'n waeth wrth ddarllen, ysgrifennu a rhifydddeg na'u cyfoedion dosbarth sydd gyda Saesneg fel ail iaith. Felly, er bod yr hyn sydd yn cael ei thrafod yn dod o Loegr, mae hyn yn wir hefyd am ddisgyblion yma yng Nghymru. Gan amlaf, mae plant yn derbyn prydau fwyd am ddim oherwydd eu bod yn dod o gefndir dan-anfantaais, ac mae yna gysylltiadau clir rhwng anfantaais gymdeithasol ac anawsterau iaith a chyfathrebu. Felly o ymweld â gwahanol ysgolion yn siroedd gwahanol sydd yn ei chynnig, a fedrwn chi fel ysgol darparu'r Cynllun Iaith Derbyshire neu gymorth ychwanegol i bob plentyn sydd yn derbyn prydau fwyd am ddim, oherwydd y cysylltiad clir rhwng anfantaais gymdeithasol ac anawsterau iaith.

Mae tracio cynnydd disgyblion yn bwysig ym mhob agwedd o'i fywyd yn yr ysgol. Felly, mae'n amlwg bod tracio datblygiad plentyn ag anawsterau iaith a chyfathrebu'n hanfodol, gan yn amlwg fod angen i chi weld os yw'r ymyriad rydych chi'n ei gynnig yn gweithio.

Felly'n dilyn o hyn, awgrymaf raglen iTrack bydd y rhaglen gorau er mwyn tracio cynnydd eich disgyblion trwy'r camau o'r cynllun iaith Derbyshire. Er bod gan y cynllun iaith Derbyshire fyrdd ei hunain o dracio, awgrymaf y rhaglen newydd yma gan ei fod yn electronig ac yn lleihau'r gwaith papur. Dywed Llywodraeth Cymru mae gan dracio cynnydd disgyblion rôl hanfodol i'w chwarae. Felly, mae rhaid sicrhau bod ganddynt hwy raglen sydd yn gweithio, mae tracio cynnydd y disgyblion yma, nid yn unig yn sicrhau eich bod yn medru gweld pa elfennau o iaith a chyfathrebu mae'r plant wedi gwella ond mae hefyd yn medru arddangos yn glir ble mae angen ffocysu ar fwy.

Wrth fonitro cynnydd disgyblion yn barhaus yn yr ystafell ddosbarth, gall yr athro adnabod y disgyblion sydd mewn perygl a chynnal ymyrraeth pan fo angen. Felly, heb dracio cynnydd mewn gwirionedd, byddech fethu adnabod y plant sydd yn cael anhawster a medru cynnal yr ymyrraeth a nodwyd yn ddefnyddiol yn gynharach yn y cyfarfod. Fodd bynnag, mae tracio

cynnydd disgyblion trwy'r datblygiad o'r anhawster yn ddefnyddiol dros ben, gan fod yn pwysleisio i'r therapyddion iaith, athrawon ysgol ar riant bod yr ymyrraeth a chyflwynir yn gweithio.

I gloi, mae'r Cynllun Iaith Derbyshire yn rhoi swm digonol o gymorth i blant mewn amgylchedd ysgol gynradd, sy'n cael trafferth gydag iaith a lleferydd. Felly, trwy gyflwyno'r cynllun hwn o fewn eich ysgol, am gost o £170 y pecyn, bydd yn sicrhau nid yn unig yr ydych chi fel ysgol yn cefnogi plant trwy eu hanghenion dysgu ychwanegol. Ond yn ogystal â hyn hefyd yn annog gwell hyder o fewn y plant, sgiliau cyfathrebu gwell a'r gobaith o fewn tymor hir yn lleihau nifer y plant o fewn eich cyfnod sylfaen sydd yn cael trafferth â phroblemau iaith a lleferydd, a hefyd wella canlyniadau'r profion cenedlaethol yr ysgol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, a fedrwch ei thrafod ar ddiwedd y cyfarfod. Diolch yn fawr am eich amser.

Cefndir yr Ysgol

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg X yn ystyried llais y disgybl wrth ddarparu cyfleoedd i gynllunio gweithgareddau a phenderfynu ar themâu newydd. Mae athrawon yn canolbwyntio'n gadarn ar ddarparu cyfleoedd ystyrlon i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o'r pedwar diben. Mae'r astudiaeth achos hon yn cynrychioli datblygu cwricwlwm yr ysgol o ran eu cynnydd mewn hunanarfarnu a chynllunio a pharatoi.

Sefydlwyd yr Ysgol ym 1949. Ar hyn o bryd mae 535 o ddisgyblion yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn lletya'r ardaloedd St Thomas, Dan y Graig, Pentrechwyth, Cwm, Trallwn, Treforys, Pentrepoeth, Cwmrhydyceirw, Ynystawe, Ynysforgan, Llansamlet ac mae'n ysgol bwydo ar gyfer Ysgol Gyfun leol.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer Blwyddyn 1 i 6 yn ogystal â Dosbarthiadau Derbyn a Meithrin. Derbynnir pob plentyn o'r meysydd uchod a thrwy ddewis rhieni.

Mae safle'r ysgol wedi'i rhannu'n 4 prif faes. Mae gan y prif adeilad 11 ystafell ddosbarth a neuadd. Mae yna 3 ystafell ddosbarth arall wedi'u lleoli gan faes yr ysgol ac mae tair ystafell ddosbarth yn edrych dros y ffreutur yn ogystal â'r Bloc Meithrin. Mae gan yr ysgol hefyd gampfa fawr a ffreutur ysgol ar wahân.

Mae digonedd o feysydd chwarae awyr agored gan gynnwys ardaloedd arwyneb caled, ardal amgaeedig ar gyfer meithrinfeydd Meithrin a helaeth.

Oherwydd maent yr ysgol mae yna dîm eithafol o staff gyda gwahanol gymwysterau o amgylch, felly bydd yna fodd i roi cymhwyster yr ymyrraeth i un, neu grŵp o staff fewn yr ysgol.

Cefndir o'r ymyrraeth a fwriedir

Dewisais yr ymyrraeth yma, oherwydd ar ôl yr ymchwil a gynhaliwyd i mewn i'r gwahanol ymyriadau sydd ar gael i blant ag anghenion iaith a lleferydd. Yr ymyrraeth Cynllun Iaith Derbyshire wnaeth sefyll allan y mwyaf. Er bod cynlluniau CHATT ar gael, yn fy marn i mae'r Cynllun Iaith Derbyshire yn medru cael ei weithredu gan wahanol aelodau o staff o fewn yr ysgol yn ogystal â therapyddion iaith o fewn y sir. Ond mae cynlluniau fel CHATT ddim ond yn medru cael ei chynnal gan y therapyddion. Felly oherwydd hyn, welwyd bod y Cynllun Iaith Derbyshire yn well ar gyfer ysgolion.

Mae'r Cynllun Iaith Derbyshire yn ddull strwythuredig a ddefnyddir yn helaeth i gynorthwyo wrth addysgu mynegiant a dealltwriaeth i blant ag anawsterau wrth ddysgu eu hiaith gyntaf. Defnyddwyr y system o ymyrraeth iaith a fwriedir ar gyfer plant sydd ag anawsterau wrth ddatblygu sgiliau iaith. Mae'n cynnwys dau Lawlyfr Addysgu, casgliad o brofion iaith a ffurflenni i gofnodi cynnydd y plentyn. Mae'r Llawlyfr Addysgu yn cynnwys disgrifiadau o weithgareddau unigol a grŵp sy'n anelu at wella defnydd plentyn a dealltwriaeth o iaith. Maent yn dechrau ar lefel isel lle tybir nad oes gan y plentyn unrhyw ddealltwriaeth o iaith na dim gallu ieithyddol mynegiannol.

Defnyddwyr y Cynllun Iaith Derbyshire o fewn llawer o ysgolion gwahanol ar draws y deyrnas unedig ar gyfer plant sydd yn cael anhawster gyda'i sgiliau iaith lafar a chyfathrebu. Gath y Cynllun Iaith Derbyshire i greu yn wreiddiol ar gyfer plant gydag anghenion dysgu difrifol, fodd bynnag medrwyd defnyddio ar gyfer unrhyw blant yn yr ysgol ble mae adeiladu geirfa, wella strwythur brawddegau a hefyd mynegi ei hunan yn gymdeithasol yw'r nod allweddol.

Datblygwyd y Cynllun Iaith Derbyshire gan seicolegydd addysgol, athro a therapydd iaith yn benodol ar gyfer athrawon a disgyblion ag anawsterau dysgu difrifol fel y nodwyd uchod. Mae'r cynllun tua thri deg mlwydd oed ond yn dal i fod yn ddefnyddiol iawn. Mae'n cynnwys tri llawlyfr sy'n darparu arweiniad ar y defnydd o'r cynllun ac yn cynnwys llawer awgrym ar gyfer gweithgareddau addysgu.

Hierarchiaeth anghenion maslow (1943)

Er fy mod wedi dewis edrych yn seiliedig ar anawsterau iaith mae rhaid edrych ar ffyrdd seicolegol.

Wrth edrych ar y diagram a grëwyd gan Maslow, mae'n codi'r cwestiwn, a all elfennau seicolegol effeithio'n uniongyrchol ar y gallu i blant ddatblygu eu lleferydd yn llawn. Mae'r diagram yn dweud wrthym, er mwyn i blentyn allu cyrraedd eu potensial llawn, mae rhaid iddynt gael eu 'anghenion sylfaenol', 'Anghenion seicolegol' a 'diwallu anghenion hunan-gyflawni'. Mae'r diagram yn ddefnyddiol iawn, gan edrych ar wahanol ffynonellau arall, maent yn datgan bod plant o amgylcheddau tlodi'n cael anhawster gyda'i iaith a chyfathrebu. Felly yw'r plant yma'n weld yn annod gyda'i iaith oherwydd nad ydynt yn cael eu hanghenion sylfaenol.

Damcaniaeth system ecolegol Bronfenbrenner (1979)

1. Microsystem

- Plentyn ddim yn chwarae gemau sydd yn cyfoethogi sgiliau iaith a chyfathrebu'r plentyn.
- A oes cyfleoedd i'r disgybl wella ei sgiliau iaith a chyfathrebu.
- Perthynas y plentyn gyda'i fam a thad.
- Perthynas y plentyn ag yr amgylchedd ysgol.
- A yw'r plentyn yn hapus yn yr ysgol? Os na, wedyn yn dilyn i'r problemau iaith a chyfathrebu.

2. Mesosystem

- Perthynas y plentyn ar amgylchedd ysgol a'i rhieni yn cael effaith uniongyrchol ar ddatblygiad y plentyn.
- Rhyngweddau'r 'Microsystem' yn dilyn mewn i'r mesosystem ac felly'n effeithio'r plentyn.
- A yw perthynas y plentyn ar athrawon dosbarth neu'r ysgol yn cael effaith datblygiadol ar y plentyn?
- A yw'r amgylchedd y plentyn yn cael effaith ar ei iaith a chyfathrebu?

3. Exosystem

- Yr exosystem yw'r drydedd haen, mae'n cynnwys elfennau o'r microsystem ond nad ydynt yn effeithio ar yr unigolyn yn uniongyrchol, ond gallant wneud hynny'n anuniongyrchol. Er enghraifft, pe bai rhiant yn colli eu swydd neu'n cael toriad yn eu horiau'n, byddai hyn yn effeithio ar eu plentyn mewn ffordd anuniongyrchol fel straen ariannol neu bwysau cynyddol rhieni. Felly'n medru dilyn i ddatblygiad iaith y plentyn yn gostwng oherwydd bywyd adref.

4. Macrosystem

- Y pedwaredd haen o'r system ac allforio'r model biolegol, mae'n cwmpasu credoau a rhaglenni diwylliannol a chymdeithasol sy'n dylanwadu ar ddatblygiad unigolyn. Byddai enghreifftiau o hyn yn cynnwys normau rhyw neu ddylanwad crefyddol.
- Gall crefydd yr unigolyn effeithio ei ddatblygiad ieithyddol?

Rhestr o Gyfeirnodau

- Big Lottery Fund. (dd). *Speech, language and communication*. Ar gael yn:
<https://www.biglotteryfund.org.uk/research/a-better-start/speech-language-and-communication>. [Darllenwyd: 8fed o Dachwedd 2018.]
- Bronfenbrenner, U. Ceci, S. J.. (1994). Nature-nurture reconceptualized in developmental perspective: A bioecological model.. *Psychological Review*. 101 (4), t568-586.
- Bronfenbrenner, U. . (1994). Ecological models of human development.. *Readings on the Development of Children*. 2 (1), t37-43.
- Bryan K, Freer J, Furlong C. Language and communication difficulties in juvenile offenders. *International Journal of Language and Communication Difficulties*, 2007; 42, 505-520.
- Chandler, J. Hand, S.. (1992). Derbyshire Language Scheme in use: An Appraisal for Computer Assisted Learning, Child Language Teaching and Therapy.. *Sage Journals*. 8 (2), t111-123.
- Complex Needs. (2016). *The Derbyshire Language Scheme*. Ar gael yn:
<http://complexneeds.org.uk/modules/Module-2.4-Assessment-monitoring-and-evaluation/C/m08p060c.html#>. [Darllenwyd: 24ain o Hydref 2018.]
- Cyngor Sir Gar. (2011). *Inclusion, Strategy and Action Plan*. Ar gael yn:
<http://online.carmarthenshire.gov.uk/agendas/eng/ecss20110207/rep04.htm>.
 [Darllenwyd: 23ain o Hydref 2018]
- Department of Education. (2010). *Exploring interventions for children and young people with speech, language and communication needs: A study of practice*. Ar gael yn:
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/219627/DFE-RR247-BCRP13.pdf. [Darllenwyd 23ain o Hydref 2018.]
- Desforges, C. Abouchaar, A. (2003). *The Impact of Parental Involvement, Parental Support and Family Education on Pupil Achievements and Adjustment: A Literature Review*. Llundain: Department for Education. t66-68.
- Donaldson, G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron. t36.
- Estyn (2007). *Arfarnu canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron. T4.
- Integrated Treatment Services. (DD). *Derbyshire Language Scheme (DLS)*. Ar gael yn:
<http://integratedtreatmentservices.co.uk/our-approaches/speech-therapy-approaches/14erbyshire-language-scheme/>. [Darllenwyd: 24ain o Hydref 2018.]

- iTrack Primary. (2017). *iTRACK FOR TEACHERS, BY TEACHERS*. Ar gael yn: <http://www.itrackprimary.com/>. [Darllenwyd: 31ain o Hydref 2018.]
- Knowles, W. Masidlover, M. (1982). *The Derbyshire Language Scheme*. Derbyshire: Derbyshire County Council. t1-5.
- Llywodraeth Cymru (2014). *School development plans*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.
- Llywodraeth Cymru (2013). *Priority review: effective pupil tracking*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. T1-6.
- McLeod, S.. (2018). *Maslow's Hierarchy of Needs*. Ar gael yn: <https://www.simplypsychology.org/maslow.html>. [Darllenwyd: 7fed o Dachwedd 2018.]
- Royal College of Speech and Language Therapists (DD). *The links between speech, language and communication needs and social disadvantage*. Llundain: Giving Voice. T1-2.
- Royal College of Speech and Language Therapists (2014). *RCSLT response to Scottish Parliament Health and Sports Committee Early Years and Health Inequalities Inquiry*. Llundain: RCSLT. T1.
- Teach Starter. (2016). *4 Benefits of Monitoring Student Progress in the Classroom*. Ar gael yn: <https://www.teachstarter.com/blog/4-benefits-monitoring-student-progress-classroom/>. [Darllenwyd: 31ain o Hydref 2018.]
- Warwick News. (2012). *New Research on Speech, Language and Communications Needs for Children*. Ar gael yn: https://warwick.ac.uk/newsandevents/pressreleases/new_research_on/. [Darllenwyd: 8fed o Dachwedd 2018.]